O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1130 (Cy. 136)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Merthyr Tudful a Phowys) (Gwahardd Dros Dro Draffig Cerbydol a Thraffig nad yw'n Gerbydol) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Ebrill 2012* |
| *Yn dod i rym* | *16 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y Gefnffordd o Gaerdydd i Langurig (yr A470), Cefnffordd yr A40 o Raglan i Lanymddyfri (yr A40), y Gefnffordd o Barc Glan Wysg (Crucywel) i Lys-wen (yr A479) a'r Gefnffordd o Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd yn sgil y treial i symud llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Merthyr Tudful a Phowys) (Gwahardd Dros Dro Draffig Cerbydol a Thraffig nad yw'n Gerbydol) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r treial sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y treial" ("*trial period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 16 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd y treial wedi cael ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 yn Siroedd Merthyr Tudful a Phowys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "person esempt" ("*exempted person*") yw unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau brys neu'r treial.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y treial, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y treial, reidio unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, ac eithrio person esempt, yn ystod cyfnod y treial, gerdded ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y treial, fynd ar gefn ceffyl ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd yr heddlu neu'r hebryngwyr a gyflogir at ddiben y treial yn hysbysu bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 9 Ebrill 2012

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 o Gaerdydd i Langurig, o ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A465 o Gastell-nedd i'r Fenni ym Merthyr Tudful, i ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A40 o Raglan i Lanymddyfri i'r gorllewin o Aberhonddu.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 o Raglan i Lanymddyfri, o ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A470 o Gaerdydd i Langurig i'r gorllewin o Aberhonddu, i ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A40 o Raglan i Lanymddyfri i'r dwyrain o Aberhonddu.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 o Gaerdydd i Langurig, o ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A40 o Raglan i Lanymddyfri i'r dwyrain o Aberhonddu, i ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr A438 i'r gorllewin o Fronllys, Powys.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A479 o Barc Glan Wysg (Crucywel) i Lys-wen, o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr A438 i'r gorllewin o Dalgarth, Powys, i ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A470 o Gaerdydd i Langurig yn Llys-wen, Powys.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 o Gaerdydd i Langurig, o ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A479 o Barc Glan Wysg (Crucywel) i Lys-wen, yn Llys-wen, Powys, i ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A483 o Abertawe i Fanceinion i'r gogledd o Lanfair-ym-Muallt, Powys.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A483 o Abertawe i Fanceinion, o ganolbwynt ei chyffordd â Chefnffordd yr A470 o Gaerdydd i Langurig i'r gogledd o Lanfair-ym-Muallt, Powys, i ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr B4355 yn Nolfor, Powys.